**Adroddiad i:** Y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol

**Dyddiad y Cyfarfod:** 10 Ebrill 2013

**Awdur yr Adroddiad:** Pennaeth y Gwasanaethau Archwilio Mewnol

**Teitl:** Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol a Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2012 / 13

---

## 1. Ynghylch beth mae'r adroddiad?

Adroddiad eglurhaol yw hwn i gyflwyno Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol y Cyngor, sy'n cyfrannu at gynhyrchu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol. Mae'r adroddiad hefyd yn cyflwyno'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer 2012 / 13

## 2. Beth yw'r rheswm dros wneud yr adroddiad?

Mae'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn argymell mabwysiadu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol bob blwyddyn fel rhan o Ddatganiad o Gyfrifon y Cyngor. Mae Grŵp Llywodraethu'r Cyngor yn ymgynghori â'r Pwyllgor yn gynnar er mwyn rhoi mwy o amser i drafod a herio'r Fframwaith a Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

Y Prif Weithredwr a'r Arweinydd sy'n llofnodi'r fersiwn derfynol y Datganiad Llywodraethu Blynyddol y bydd y Pwyllgor yn ei gymeradwyo ym mis Mehefin 2013.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Fod y Pwyllgor yn ystyried y Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol drafft 2012 / 13, yn herio ac yn argymell rhagor o waith neu welliannau os ystyrir eu bod yn angenrheidiol.